


ATODIAD 3

POLISI IAITH YSGOLION GWYNEDD 2021 ***GWYNEDD SCHOOLS LANGUAGE POLICY 2021***

Ysgol



Dyddiad Cymeradwyo/Date Adopted:
Dyddiad Adolygu/Review Date:

Llofnodwyd **ar** **ran** **Cadeirydd** **y** **Llywodraethwyr:**

Dyddiad: _____

Cefndir

Gosodir disgwyliadau penodol ar Adran Addysg Cyngor Gwynedd i gyfrannu tuag at strategaethau a deddfwriaeth cenedlaethol o ran hybu a chynyddu defnydd o'r Gymraeg.

Y mae'n ofynnol, o dan adran 84 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion Cymru (2013), ac i gydymffurfio gyda Rheoliadau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019, i bob Awdurdod Addysg Lleol baratoi a chyflwyno Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg sy'n amlinellu gweledigaeth addysg cyfrwng Gymraeg o fewn yr awdurdod dros y deng mlynedd nesaf.

Gosodir gofyniad statudol ar y Cyngor hefyd o dan adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 i lunio a chyhoeddi strategaethau sirol fydd yn amlinellu sut y byddant yn cyfrannu at y nod cenedlaethol a osodir yn Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050, i gynyddu nifer y siaradwyr ledled Cymru ac i gynyddu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd. Mae strategaeth Iaith sirol Gwynedd – Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-23 - yn gosod yr ymrwymiad a'r weledigaeth ar gyfer y sir, ac mae gwaith yr Adran Addysg a nodau'r CSGA yn cyfrannu at amcanion y strategaeth sirol honno.

Mae hybu'r defnydd o'r Gymraeg hefyd yn un o amcanion gwella Cyngor Gwynedd, gyda Chynllun Strategol y Cyngor yn datgan mai'r nod yw gweld: "Pobl Gwynedd yn manteisio ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned, y gweithle, ac wrth gyrchu gwasanaethau cyhoeddus".

Mae'r polisi hwn felly wedi ei lunio er mwyn rhoi crynodeb o'r disgwyliadau a osodir ar Benaethiaid a'u hysgolion mewn perthynas â hybu defnydd o'r Gymraeg, ac i gadarnhau y gweithdrefnau sydd eisoes yn bodoli yn y cyd-destun hwn.

Mae'r polisi wedi ei rannu yn bedair adran, gan amlinellu'r arfer gorau dan y penawdau canlynol:

- **Cyfrwng Addysg**
- **Defnydd Cymdeithasol**
- **Recriwtio a Phenodi staff**
- **Gweinyddiaeth a Chyfathrebu**

Disgwylir i bob Pennaeth, mewn ymgynghoriad â'i staff a'r Corff Llywodraethu, gymeradwyo a mabwysiadu'r Polisi Iaith hwn.

Cyfrifoldeb y Pennaeth yw sicrhau llwyddiant y Polisi Iaith yn ei ysgol/hysgol; disgwylir i'r Pennaeth roi arweiniad pendant er mwyn sefydlu dealltwriaeth drwyadl o nod y polisi ac i sicrhau bod holl staff yr ysgol yn atgyfnerthu ymdrechion athrawon dosbarth drwy sicrhau ethos Gymraeg a Chymreig yn yr ysgol.

AMCANION CYFFREDINOL Y POLISI

Prif nod y Polisi yw sicrhau bod Penaethiaid, staff yr ysgolion a Llywodraethwyr yn ymwybodol o'r disgwyliadau i ddefnyddio, hybu a hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob rhan o weithrediad ysgolion y sir, ac i sicrhau bod hawl y disgyblion a theulu estynedig yr ysgol i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ymwneud efo'r ysgol yn cael ei barchu bob amser.

Wrth weithredu'r polisi hwn bydd yr ysgol a'r corff llywodraethu yn sicrhau:

- bod holl ddisgyblion y sir yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg, a bod y disgwyliad hwnnw yn gyson ar draws pob un o'r ysgolion.
- bod darpariaeth addas i alluogi pob disgybl i ddatblygu'n hyfedr ddwyieithog. Yn y cyd-destun hwn, disgwylir i ysgolion barhau i feithrin sgiliau'r disgyblion hynny sy'n Gymry Cymraeg, a chyflwyno'r Gymraeg i'r rhai hynny sy'n ddysgwyr.
- bod holl sefydliadau addysg y sir yn adlewyrchu ac atgyfnerthu'r Polisi Iaith yn eu gweinyddiad, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol, yn ogystal ag yn eu darpariaeth gwricwlaidd.

Er mai nod cyffredinol y Polisi o ran cyfrwng yr addysg yw datblygu dwyieithrwydd, fe bwysir y fantol o blaid y Gymraeg. Mae hyn yn arbennig o wir yn y blynyddoedd cynnar [meithrin ac yn y blynyddoedd yn arwain at ddiwedd y Cyfnod Sylfaen] er mwyn gosod sylfeini cadarn ar gyfer datblygiad pellach. Yn y Cyfnodau Allweddol eraill, disgwylir gweld strategaeth bwrsasol yn cael ei gweithredu er mwyn galluogi disgyblion o gartrefi Cymraeg a di-Gymraeg i ddatblygu eu gafael ar y Gymraeg a'r Saesneg fel ei gilydd. Yn y cyd-destun hwn, bydd y pwyslais a roddir ar y ddwy iaith ar wahanol adegau yn natblygiad disgybl yn gwahaniaethu yn ôl cefndir ieithyddol y disgybl a'r ardal a wasanaethir.

1. CYFRWNG ADDYSG

EGWYDDOR CYFFREDINOL

Disgwylir i holl ysgolion y sir weithredu mewn modd sydd yn cyfrannu at nodau ac amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, i gynyddu a gwella'r cynllunio ar gyfer darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg.

1.1 YSGOLION CYNRADD

Yr un yw'r disgwyliad ar gyfer pob ysgol gynradd.

Blynyddoedd Cynnar:

Disgwylir i ysgolion cynradd osod sylfaen gadarn yn y Gymraeg gan sicrhau bod pob disgybl yn cael y cyfle i ddysgu'r Gymraeg cyn gynted â phosibl.

Cyfnod Sylfaen:

Dylid adeiladu ar y sylfaen a osodwyd yn y cyfnod meithrin a derbyn drwy barhau i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg, a chychwyn ar y broses o ddatblygu eu

sgiliau yn y Saesneg. Yn ymarferol, golyga hyn y bydd pob ysgol yn cychwyn cyflwyno'r Saesneg yn ffurfiol yn y tymor olaf ar ddiwedd y CS. Y Gymraeg fydd iaith swyddogol yr asesu yn yr ysgol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen.

Cyfnod Allweddol 2:

Dylid parhau i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau yn y ddwy iaith. Yn y cyd-destun hwn, disgwylir i ysgolion wneud defnydd o'r Saesneg fel cyfrwng wrth i ddisgyblion symud drwy CA2. Bydd y pwyslais a roddir ar y ddwy iaith ar wahanol adegau yn natblygiad disgybl yn gwahaniaethu yn ôl cefndir ieithyddol y disgybl a'r ardal a wasanaethir. Disgwylir i'r trefniant hwn sicrhau cyfleoedd i ddatblygu'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm ym mhob ardal ar draws y sir. Asesir cynnydd disgyblion yn y Gymraeg a'r Saesneg ar ddiwedd y cyfnod allweddol.

Yn ychwanegol, disgwylir i ysgolion sicrhau bod disgyblion sy'n ddysgwyr y Gymraeg yn CA2, yn dysgu'r Gymraeg cyn gynted â phosibl, naill ai trwy fynychu Cyfundrefn Addysg Drochi, neu trwy ddarpariaeth ddwys yn yr ysgol, er mwyn iddynt allu dilyn y cwricwlwm yn llawn trwy gyfrwng y Gymraeg / yn ddwyieithog.

1.2 YSGOLION UWCHRADD

Yr un yw'r disgwyliad ar gyfer pob ysgol uwchradd.

Disgwylir i bob disgybl sydd wedi cyrraedd Lefel 3 cadarn ar ddiwedd CA2 ddilyn Rhaglen Astudio Cymraeg [Iaith Gyntaf] er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad priodol. Yn ychwanegol, mae angen sicrhau bod pob disgybl yn astudio'r Gymraeg fel pwnc hyd at ddiwedd B11 ac yn sefyll profion ac arholiadau allanol priodol ar ddiwedd CA3 a CA4.

Disgwylir i ysgolion adeiladu ar y sylfaen a osodwyd yn y cynradd trwy sicrhau bod pob disgybl yn parhau i ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg a'r Saesneg trwy ddefnyddio'r ddwy iaith yn gyfrwng dysgu i amrywiol raddau. Yn y cyd-destun hwn, mae angen defnyddio'r wybodaeth a drosglwyddir am gyrhaeddiad ieithyddol pob disgybl gan y Cydlynwyr Clwstwr y Gymraeg ar gyfer cynllunio ieithyddol bwriadus ar gyfer hyrwyddo dwyieithrwydd. Yn ymarferol, bydd angen gweithredu yn y modd a ganlyn:

- Yn achos **disgyblion sydd â hyfedredd yn y Gymraeg** ond sydd angen datblygu ymhellach eu gafael ar y Gymraeg a gwella sgiliau penodol yn y Saesneg [Carfannau A a B], disgwylir y bydd cyfran helaeth o'u cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ychwanegol, cynllunnir profiadau penodol ar draws y cwricwlwm er mwyn iddynt ddatblygu a gwella'u sgiliau yn y Saesneg. Mewn achosion o'r fath disgwylir i'r amser a neilltuir ar gyfer profiadau yn y Gymraeg a'r Saesneg fod yn cyfateb yn fras i 70%:30%.
- Yn achos **disgyblion sydd angen datblygu ac atgyfnerthu eu sgiliau** yn y Gymraeg [Carfan C1] cynllunnir y cwricwlwm mewn modd fydd yn caniatáu iddynt ymarfer a datblygu'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm. Mewn achosion o'r fath disgwylir i'r amser a neilltuir ar gyfer profiadau yn y Gymraeg fod yn 50% o leiaf.
- Yn achos lleiafrif y **disgyblion sydd â sgiliau priodol yn y Saesneg ond sydd heb y sgiliau priodol yn y Gymraeg** [Carfan C2], rhoddir pwyslais ar gynllunio cyfleoedd ar

draws y cwricwlwm i ddatblygu eu sgiliau llafar yn y Gymraeg. Mewn achosion o'r fath disgwylir i'r amser a neilltuir ar gyfer profiadau yn y Gymraeg fod yn 30% o leiaf.

Disgwylir i'r drefn a ddisgrifir uchod, o'i gweithredu'n effeithiol mewn ysgol, ddatblygu a chynyddu dwyieithrwydd gweithredol dysgwyr a datblygu dwyieithrwydd disgyblion. Disgwylir iddo hefyd fod yn fodd i gynyddu nifer disgyblion sydd yn sefyll arholiadau CA4 trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn ychwanegol, disgwylir i ysgolion sicrhau bod disgyblion sy'n ddysgwyr y Gymraeg ym mlynnyddoedd cynnar CA3 yn dysgu'r iaith cyn gynted â phosibl, naill ai trwy fynychu'r Gyfundrefn Drochi neu trwy ddarpariaeth ddwys yn yr ysgol, er mwyn iddynt allu dilyn elfennau o'r cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg / yn ddwyieithog.

DARPARU AR GYFER Y GWAHANOL GARFANNAU YN YR UWCHRADD

Diffinia'r Polisi iaith ddatblygiad ieithyddol disgyblion yn y Gymraeg a'r Saesneg wrth iddynt weithio tuag at y nod o ddwyieithrwydd. Disgwylir i ysgolion uwchradd wneud defnydd o'r carfannau ieithyddol ynghyd â'r ddarpariaeth ieithyddol a awgrymir er mwyn sicrhau datblygiad dwyieithog disgyblion.

CARFAN	Diffiniad o'r math o ddisgybl yn ôl ei allu ieithyddol.	Yr anghenion ieithyddol sydd eu hangen er mwyn datblygu sgiliau dwyieithog y disgybl.
A	Disgyblion â hyfedredd oed-berthnasol cyfochrog yn y Gymraeg a'r Saesneg.	Addysg ddwyieithog ar draws y cwricwlwm er mwyn meithrin, atgyfnerthu ac ymestyn sgiliau yn y ddwy iaith.
B	Disgyblion â hyfedredd priodol yn y Gymraeg ond sydd ag angen atgyfnerthu rhai agweddau ar eu sgiliau ieithyddol yn y Saesneg.	Addysg ddwyieithog gyda'r pwyslais ar ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen er mwyn galluogi'r disgybl i drosglwyddo i garfan A maes o law.
C1	Disgyblion â hyfedredd priodol yn y Saesneg ond sydd angen atgyfnerthu rhai agweddau yn y Gymraeg	Rhoi pwyslais ar ymestyn hyfedredd y disgybl yn y tri tharged cyrhaeddiad. Sicrhau y defnyddir cyfleoedd y tu allan i wersi arferol i ddatblygu gafael y disgybl ar y Gymraeg.
C2	Disgyblion â hyfedredd priodol yn y Saesneg ond sydd heb y sgiliau oed-berthnasol priodol yn y Gymraeg.	Rhoi pwyslais ar waith llafar a gwaith ymarferol trwy gyfrwng y Gymraeg.
CH	Disgyblion heb sgiliau oed-berthnasol priodol yn y naill iaith na'r llall.	Cynllunio gofalus a phwrpasol ar gyfer datblygu'r sgiliau angenrheidiol yn y ddwy iaith.

Cynigir yr isod fel canllawiau pellach i'w hystyried ar lefel ysgol unigol.

1. Disgwylir i bob ysgol ddarparu'n ofalus ar gyfer datblygu dwyieithrwydd pob disgybl trwy gynllunio ieithyddol bwriadus.

2. Disgwylir i bob ysgol ystyried y dulliau/cyfuniad o'r dulliau addysgu dwyieithog mwyaf addas a phriodol ar gyfer eu gwahanol sefyllfaoedd. Er mwyn sicrhau bod defnydd priodol yn cael ei wneud o'r Gymraeg a'r Saesneg fel cyfrwng, dylid ystyried y canlynol:
 - cyflwyno rhai unedau/modiwlau penodol trwy gyfrwng y Gymraeg ac eraill trwy gyfrwng y Saesneg (rhaid ystyried y cyd-bwysedd priodol);
 - cyflwyno rhai pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg ac eraill trwy gyfrwng y Saesneg (rhaid ystyried y cyd-bwysedd priodol);
 - cyflwyno geirfa allweddol/taflenni gwaith yn y ddwy iaith (rhaid ystyried a oes angen gwneud hyn ym mhob pwnc neu rai pynciau yn unig);
 - trawsieithu, sef darllen/gwyllo agweddau pynciol mewn un iaith a thrafod neu ysgrifennu yn y llall;
 - defnyddio'r ddwy iaith fel cyfryngau i amrywiol raddau i atgyfnerthu'r naill iaith a'r llall, yn arbennig gyda Charfanau B, C1, C2, CH (rhaid defnyddio'r iaith yn fwriadus a gofalus fel na chymysgir y ddwy iaith yn ormodol ac yn ddiangen).
3. Disgwylir i bob ysgol gynnig darpariaeth benodol ar gyfer dysgwyr (Carfannau C1 ac C2), gan sicrhau cyswllt digonol â'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm.
4. Disgwylir i bob ysgol annog pob newydd-ddyfodiaid yn B7 i fynychu cwrs dwys yn y Gyfundrefn Addysg Drochi cyn gynted â phosibl. Dylid atgyfnerthu hyn â darpariaeth yn yr ysgol e.e. cynnig rhai o'r pynciau ymarferol o leiaf, i ddechrau, trwy gyfrwng y Gymraeg.
5. Disgwylir i bob ysgol sefydlu trefn ar gyfer tracio a mesur datblygiad ieithyddol y disgyblion yn ôl y Carfanau Iaith, er mwyn sicrhau cynnydd yn eu hyfedredd ieithyddol, fel bod pob un yn symud tuag at Garfan A ar y continwmm ieithyddol.

2. DEFNYDD CYMDEITHASOL O'R GYMRAEG

EGWYDDOR CYFFREDINOL

Disgwylir i bob ysgol fagu agweddau cadarnhaol ymysg y disgyblion a'r gweithlu tuag at yr iaith, gan greu balchder a chynyddu'r defnydd o'r iaith y tu fewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth.

Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn ddogfen statudol gan Awdurdod addysg Gwynedd, a disgwylir y bydd pob ysgol yn:

- Darparu data ynghylch defnydd a sgiliau iaith disgyblion yr ysgolion, a data am sgiliau iaith y gweithlu.
- Gweithio o fewn yr un fframwaith i sicrhau dysgwyr sy'n hyderus i ddefnyddio'u sgiliau iaith Cymraeg mewn gwahanol gyd-destunau.
- Ymgorffori gofynion y Siarter Iaith a'r Strategaeth Iaith Uwchradd fel rhan annatod o Gwricwlwm yr ysgol er mwyn cyflawni gofynion y strategaeth iaith sirol - *Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-2023*. I sicrhau bod pob dysgwr yn datblygu'i sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer ei defnyddio'n gymdeithasol, i baratoi ar gyfer byd gwaith, ac i arddangos

agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith. Mae gwreiddio ac ehangu defnydd anffurfiol o'r Gymraeg hefyd yn rhan greiddiol o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad o fewn y cwricwlwm newydd.

3. RECRIWTIO A PHENODI

EGWYDDORION CYFFREDNOL

Disgwylir i bob ysgol weithredu yn unol â'r Polisi Recriwtio a Phenodi (2021) a sicrhau bod y Gymraeg yn cael y sylw priodol wrth hysbysebu swyddi a recriwtio.

Disgwylir bod paneli penodi y corff Llywodraethu yn ymwybodol o'r angen i ystyried anghenion ieithyddol wrth benodi.

Disgwylir i'r Gymraeg gael ei nodi fel sgil hanfodol/allweddol ar gyfer pob swydd, gyda'r union lefel o sgiliau ieithyddol sydd eu hangen i gyflawni gofynion y swydd - *gwrando a siarad, darllen a deall ac ysgrifennu* - yn cael eu dangos yn glir yn y Manylion Person wrth hysbysebu.

Disgwylir i unigolion gael eu penodi sydd yn meddu ar y sgiliau ieithyddol sydd wedi eu nodi ar gyfer y swydd. Os oes unigolyn yn cael eu penodi sydd ddim yn meddu ar y sgiliau hanfodol a nodwyd ar gyfer y swydd dan sylw, disgwylir iddynt ymrwymo i raglen hyfforddiant er mwyn gwella eu sgiliau iaith.

Hysbysebu

Disgwylir i'r Dynodiad Iaith ar gyfer y swydd gael ei gynnwys ym mhob hysbyseb yn unol â'r hyn sydd wedi ei bennu ar gyfer y math o swydd yn yr atodiad *Fframwaith Iaith a Rhestr Dynodiadau Swyddi*.

Penodi

Cyfrifoldeb y Pennaeth/Panel Recriwtio fydd sicrhau bod unigolion sydd yn cael eu penodi yn cyrraedd y gofynion sydd wedi eu nodi ar gyfer y swydd, neu eu bod yn ymrwymo i weithio tuag at gyrraedd y gofynion hynny.

Os na fydd yn bosib penodi rhywun gyda'r sgiliau ieithyddol angenrheidiol ar ôl hysbysebu unwaith, gellir ystyried ail-hysbysebu er mwyn derbyn ceisiadau gan ymgeiswyr nad ydynt yn cwrdd â'r gofynion iaith yn syth, ond sydd yn fodlon ymrwymo i ddysgu. Bydd modd cael arweiniad pellach am hyn gan y Swyddogion Addysg perthnasol.

Ni fydd Dynodiadau Iaith y swydd ei hun yn cael eu newid o gwbl wrth ail hysbysebu.

Mewn amgylchiadau fel hyn, disgwylir y bydd yr hysbyseb yn cynnwys y geiriad canlynol:

Rydym yn awyddus i ystyried ceisiadau gan unigolion sydd, o bosib, â'u sgiliau ieithyddol yn is na lefel iaith y swydd ar hyn o bryd, ond bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus ymrwymo i ddysgu neu ddatblygu i lefel iaith y swydd o fewn amserlen resymol. Bydd y Cyngor yn rhoi cefnogaeth i gyflawni hynny.

Mewn amgylchiadau o'r fath, ac fel rhan o'r broses benodi os bydd rhywun yn cael eu penodi nad ydynt yn cwrdd y gofynion iaith, disgwylir y bydd cynllun cymorth a hyfforddiant pwrpasol i'r

unigolyn yn cael ei chytuno a'i llunio mewn cytundeb rhwng y Swyddogion Addysg perthnasol, y Pennaeth, a deilydd y swydd, er mwyn pontio'r bwlch rhwng sgiliau'r unigolyn a'r sgiliau sydd yn ofynnol ar gyfer y swydd.

Hyfforddiant / Ar ôl penodi

Cyfrifoldeb y Pennaeth/Rheolwr sydd yn penodi yw sicrhau eu bod yn cael cyngor gan y Swyddogion Addysg perthnasol am hyfforddiant sydd ar gael pan fo'n briodol, a bod yr unigolyn yn mynychu unrhyw hyfforddiant sydd wedi ei adnabod ar eu cyfer er mwyn datblygu eu sgiliau. Disgwylir i Benaethiaid/Rheolwyr fonitro cynnydd yr unigolyn fel rhan o drefniadau rheoli perfformiad a gwerthuso parhaus.

4. GWEINYDDIAETH

EGWYDDOR CYFFREDINOL

Disgwylir i holl sefydliadau addysg y sir ymrwymo i gyfathrebu gyda disgyblion, rhieni a theulu estynedig yr ysgol yn ddwyieithog, gan barchu dewis iaith a hawl unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ymwneud efo'r ysgol.

Er bod disgwyl cyffredinol i wybodaeth gael ei ddarparu yn ddwyieithog, cydnabyddir hefyd mai'r Gymraeg yw iaith weithredol, naturiol, yr ysgolion ac anogir ysgolion i ystyried amgylchiadau lle mae'n briodol i gyfathrebu yn Gymraeg yn unig.

Cyswllt ffôn a wyneb yn wyneb

Disgwylir y bydd modd i'r cyhoedd gael gwasanaeth dwyieithog llawn yn nerbynfeydd pob un o sefydliadau addysg y sir.

Dylid cynnig gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog wrth gysylltu dros y ffôn (gyda'r Gymraeg yn gyntaf), mewn ffordd groesawgar, a dylid ateb unrhyw alwadau gan y cyhoedd yn yr un modd.

Os bydd y sawl sy'n galw yn siarad Cymraeg, ond nad yw'r aelod o staff gweinyddol sy'n ateb yn gallu siarad Cymraeg yn ddigon rhugl i ymdrin â'r mater yn llawn, disgwylir i'r aelod o staff gweinyddol egluro hynny wedi cyfarch y galwr, a chynnig trosglwyddo'r alwad i aelod arall o staff fydd yn gallu ymdrin â'r mater yn llawn yn newis iaith y galwr.

Mewn achosion lle bo'r aelod o staff gweinyddol sy'n ateb galwad yn ddysgwyr(aig), anogir yr aelod o staff gweinyddol i ddefnyddio ac ymarfer ei G/Chymraeg hyd eithaf ei (g)allu.

Disgwylir y bydd negeseuon ar beiriant ateb yr ysgol yn ddwyieithog, gyda'r neges Gymraeg i'w chlywed gyntaf.

Cyswllt a gwybodaeth ysgrifenedig

Yn holl sefydliadau addysg y sir, disgwylir i unrhyw ohebiaeth neu ddeunydd ysgrifenedig - e.e. llythyr, cylchlythyr, neges e-bost, neges testun, posteri, pamffledi - sydd wedi eu bwriadu ar gyfer rhieni/gwarcheidwaid neu'r cyhoedd yn gyffredinol, gael ei ysgrifennu yn Gymraeg a Saesneg. Mae

hyn yn cynnwys deunydd ysgrifenedig wedi ei argraffu a deunydd a gaiff ei rannu yn electronig. i riant/warchodwr.

Dylid sicrhau bod unrhyw negeseuon sydd yn cael eu hanfon yn electronig a thrwy ddefnyddio apiau yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.

Disgwylir y bydd yr holl ddogfennau swyddogol a gaiff eu rhannu gyda'r cyhoedd yn enw'r ysgol, boed wedi eu cynhyrchu yn fewnol neu gan gorff neu sefydliad allanol, yn rhoi'r un statws i'r Gymraeg a'r Saesneg.

Disgwylir y bydd unrhyw gyfrifon ar wefannau cymdeithasol (megis Facebook a Twitter) yn dilyn yr un egwyddorion ac yn cyflwyno gwybodaeth yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn ymddangos gyntaf bob amser.

Ar yr un pryd, cydnabyddir mai Cymraeg yw iaith weithredol yr ysgol a disgwylir i'r ysgol roi ystyriaeth i amgylchiadau lle byddai defnyddio'r Gymraeg yn unig neu y ddwy iaith fod yn fwy priodol.

Cyfarfodydd

Yn holl sefydliadau addysg y sir, disgwylir y bydd unrhyw gyfarfod a drefnir yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys cyfarfodydd mewnol, cyfarfodydd gydag aelodau o staff, a chyfarfodydd y Corff Llywodraethol.

Os yn trefnu cyfarfod gyda disgybl/rhiant/gwarcheidwad i drafod materion yn ymwneud ag addysg neu unrhyw faterion personol eraill, dylid sicrhau bod y cyfarfod yn cael ei gynnal yn newis iaith yr unigolyn. Cyfrifoldeb yr ysgol/pennaeth fydd sicrhau bod hawl unigolion i gael trafod materion personol yn ei ddewis iaith yn cael ei barchu.

Disgwylir mai'r Gymraeg fydd prif iaith unrhyw gyfarfodydd cyhoeddus a gynhelir gan unrhyw sefydliadau addysg y sir.

Caniateir i unrhyw un siarad Cymraeg neu Saesneg, yn ôl eu dewis, mewn cyfarfod cyhoeddus a drefnir gan unrhyw sefydliad addysg yn y sir, ac mae cyfrifoldeb ar yr ysgol i drefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd er mwyn sicrhau bod modd i rai nad ydynt yn siarad Cymraeg allu deall a chyfrannu'n effeithiol tuag at y cyfarfod. Bydd disgwyl i gadeiryddion cyfarfodydd annerch a chynnal y cyfarfodydd yn Gymraeg, gan annog mynychwyr di-Gymraeg i ddefnyddio'r offer er mwyn hybu dewis iaith.

Anogir arweinwyr mewn digwyddiadau neu gyfarfodydd mwy anffurfiol, megis cyngherddau, nosweithiau agored ac ati, i gyfarch y gynulleidfa yn ddwyieithog, er mwyn cynnwys pawb.

Darpariaeth cyfieithu:

Gellir cael cefnogaeth Gwasanaeth Cyfieithu'r Cyngor ar gyfer cyfarfodydd a dogfennau Llywodraethwyr, er mwyn sicrhau bod aelodau di-Gymraeg yn gallu parhau i chwarae rhan lawn mewn cyfarfod neu ddigwyddiad.

Dylid rhoi ystyriaeth i sefyllfaoedd lle byddai angen darpariaeth cyfieithu yn gyfrwng i gyfarch dewis iaith unigolyn.

MONITRO GWEITHREDIAD Y POLISI

Bydd Gweithrediad y Polisi yn cael ei fonitro fel rhan o'r trefniadau cyffredinol ar gyfer monitro gwasanaethau.

Gyda chymorth yr ysgolion, bydd yr Awdurdod yn adrodd yn flynyddol i Lywodraeth Cymru ar weithrediad Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

Cynhwysir adran benodol yn Adroddiad Blynyddol pob ysgol ar weithrediad y Polisi iaith yn yr ysgolion.

Disgwylir i'r Corff Llywodraethu adolygu a chymeradwyo'r Polisi iaith yn unol â'r drefn adolygu polisiau blynyddol.